

Newyddion Capel Y Waen

Rhif 24 Nadolig 2015

**Capel Annibynwyr Waengoleugoed
Waen,
Llanelwy LL17 0DY**

Eglwys fechan bywiog a gweithgar sydd yn gwrando ar lais Duw ac yn ceisio bod yn ganolbwynt daoini a gweithredu yn gariadus o fewn ein cymuned. I weld rhagor o newyddion / trefn oedfa ayb ewch i'n Gwefan - www.capelywaen.btck.co.uk / dilynwch ni ar Facebook "Capel y Waen".

*Cysylltwch a ni trwy'r wefan neu trwy'r post i'r cyfeiriad uchod
Nadolig a Blwyddyn Newydd Bendithiol i Bawb !*

Dathlu daucanmlwyddiant yr Achos 1815-2015 Mae eleni wedi bod yn flwyddyn hanesyddol wrth ini gofio a dathlu ein daucanmlwyddiant. Rydym yn diolch I Dduw am yr achlysur arbennig yma ac am y cyfle I gynnal gwahanol gweithgareddau. Mae y gweithdai gyda Cefyn Burgess ar gyfer cywaith bydd yn llenwi y gofod ble rhaid tynnu y ffenestr er mwyn cwblhau'r estyniad wedi rhoi cyfle I lawer o unigolion a gwahanol grwpiau sydd ynghlwm a'r Capel I gyfrannu a felly hefyd y gweithgareddau yn ystod y flwyddyn fel Darlith y Grawys, y ffair, oedfaon deulu ayb sydd oll yn rhoi cyfle I ddod a pobl at eu gilydd a fel y ddywedodd yr Apostol Paul—Pobol sydd yn gwneud eglwys. Mae cyhoeddi y llyfr "Stori Capel Waengoleugoed" wedi rhoi cyfle I sawl un gyfrannu ac er fod llawer yn swil o sgwennu mae nifer wedi mynd ati I chwilio hanes ini—mae cysylltiadau newydd wedi dyfod o hyn a rhai a oedd gyda chysylltiad wedi adnewyddu eu cyswllt.

Wrth ini lawenhau, mae y hanesion sydd yn cael eu cyflwyno yn y llyfr yn gwneud ini deimlo yn wylaidd iawn o weld pa mor galed oedd aelodau, gwrandawyr a charedigion y gorffennol yn gweithio dros yr achos yma

yn y Waen .Nid oedd ganddynt arian I gyfrannu ac roeddent yn gweithio oriau maith iawn yn llafurio I gynnal eu teuluoedd ac eto roedd y Capel a gwasanaethu y Capel yn cael lle blaenllaw yn eu bywydau. Mor hawdd ini yn ein bywydau prysur feddwl nad oes ganddom amser I wasanaethu ein capel a'r gymuned. Ond beth yn amlwg yw fod Capel y Waen wedi bod erioed yn Gapel Cymunedol yn wir ystyr y gair - y capel yn cefnogi y gymuned a'r gymuned yn eu tro yn cefnogi'r Capel a'r ymdrechion gadw llygad bugeiliol ac I wasanaethu'r cymuned. Onid oedd yr Eisteddfodau ar ddiwrnod Calan yn ystod y rhyfel byd cyntaf yn ymdrech I ddangos cefnogaeth a ddod a chymuned at eu gilydd? Bu'r grwp gwaith llaw yn cyfarfod bob nos Lun heb ddim seibi-ant am pedwar mlynedd ar bymtheg —codi arian I geisio lleihau y ddyled mawr ar y Capel oedd y nod ond yn sicr bu y nosweithiau hyn yn modd I gynnal rhai a oedd efallai ar ymylon y gymuned a nifer gyda ddim chysylltiad a'r Capel yn eu mynychu. Bu Clwb yr Heulwen yn yr 1970'au yn ymestyn gofal yn enw'r Capel I'r henoed a bregus ac yn cynnig man cyfarfod a trwy hyn ymgeledd I rai eto ble roedd bywyd yn anodd a'r llwybr yn serth. Wrth ddiolch ar ddiwedd blwyddyn am y cyfle I dathlu, ac yng nghyfnod yr adfent a'r Nadolig onid y ffordd orau I wir dathlu ein daucanmlwyddiant a'r Nadolig ydi bod yn agored I bawb trwy wasanaethu eraill yn enw Crist ac I gofio fod gwaith y Nadolig yn para trwy gydol y flwyddyn ?

***"Mae na alw am gast drama'r geni drwy'r flwyddyn I weithio'n gudd,
am fod gwaith y Nadolig yn anodd..... yn ormod o waith I un dydd"***



Ychydig o'n Hanes

Oedfaon Ddiweddar

GWAITH ELUSEN
CAPEL Y WAEN
YNGHYD A CHAS-
GLIADAU ARBENNIG

RYDYM YN CYNNAL FFAIR
FLYNYDDOL. YN 2014 DERBYN-
WYD £3,925.25 A RYDYM WEDI
HELPU HOSBIS ST CYNDEYRN,
CYMORTH CRSITNOGOL A GOFAL
DYDD. RYDYM YN RHOI CYMORTH
YMARFEROL TRWY BRYNNU OFFER
I RHAI SYDD YN Wael. COFIWCH
CEFNOGI EIN SIOP NEWYDD SYDD
YN GWERTHU NWYDDAU,
CHARDIAU AC ANRHEGION A CHEF-
NOGWCH Y GRONFA YMA
OUR OUTREACH WORK
IN 2014 WE RECEIVED £3,925.25
FROM THE FAIR AND SPECIAL COL-
LECTIONS. YOU CAN HELP SUP-
PORT OUR VITAL WORK AND ESPE-
CIALLY FUNDING OUR WEEKLY DAY
CARE BY DONATIONS, SUPPORTING
OUR SHOP AND DONATING GIFTS
AND OTHER ITEMS TO SELL.

Ar Sul y cofio, oherwydd amgylchiadau anorffod, nid oedd Karen Owen yn gallu bod gyda ni a bu ini gynnal oedfa ein hunain ac I gofio am y 6 bachgen lleol (3 ohonynt yn aelodau'r Capel) a bu farw yn y rhyfel byd cyntaf ac am W R Williams a bu farw yn yr ail ryfel byd. Chymerwyd rhan gan Penny Mawdsley, Emyr George a Mari a da hefyd oedd croesawu Cefyn Burgess i'r oedfa. Braf bob amser ydi croesawu y Parch Harri Parry atom a hefyd Mrs Nan Parry ac fel arfelf chawsom bregeth chyfoes a hefyd cael cynylleidfia niferus a rhai ymwelwyr I wrando ar y Parch Harri Parry.

Dathlu 200 Capel y Waen 1815-2015

Mae gwerthiant y llyfr yn mynd yn dda—yn wir ar hyn o bryd mae y llyfr wedi gwerthu allan ar wefan y cyngor llyfrau a hefyd mewn sawl siop ond mae rhai copiau ar gael yn y Capel. Mae Cefyn Burgess am gynnal ragor o weithdai yn 2016 ar ol cael saib bach dros y Nadolig. Da ydi gweld gwahanol grwpiau o'r Capel yn ymuno yn y gweithdai ac yn mwynhau yn fawr. Y syndiad ydi wedi i'r cywaith gael eu gwblhau, byddem yn cynnal oedfa arbennig yn y Capel i'w gyflwyno ac i ddiolch am 200 mlynedd cyntaf ein heglwys.

Grwp C3

Daeth y grwp at eu gilydd ar Ragfyr 2 I fwynhau lluniaeth hyfryd gan lola a Nancy ac I groesawu Elinor Davies o'r Groes Goch a roddodd triniaeth amgen I bawb a son am gwerth triniaeth amgen tra mae pobl yn gwella o sawlch. Mae Elinor, er ei prysurdeb mawr, bob amser mor barod I ddod atom a rhannu ei sgiliau a'u phrofiadau gyda ni. Bydd y grwp yn cyfarfod eto ym mis Ionawr

Diolch am Roddion

Llawer iawn o ddiolch I Rhodri, Meinir, Julie ac Arwyn am y rhodd hael I Ofal Dydd er cof am Meirion Jones Rhewl. Daeth Meirion I Ofal dydd y diwrnod cyntaf ini gychwyn a mwynhau yn fawr. Chafodd lawenydd yn y Capel ym mhriodas Meinir ac Arwyn; mewn oedfa deulu gyda Iwan Price yn arwain a hefyd ar achlysur be-ddydd Gronw. Byddem yn datblygu Gofal Dydd gyda'r rhodd.

Myfrdod y Mis

*"Aeth pawb i gof-
restru, pob un i'w
dref ei hyn....*

*Pan oeddent
yno, cyflawnwyd
yr amser iddi es-
gor ar ei mab
cyntafanedig; a
rhwymodd ef
mewn cadachau
a'i osod mewn
preseb, am nad
oedd lle iddynt yn
y gwesty" Luc 2
ad 3-6*

Croeso—Rydym yn falch iawn o groesawu Ffion Ryan atom. Mae Ffion wedi symud o Dde Cymry wedi iddi dderbyn swydd fel athrawes yn lleol a rydym yn gobeithio y bydd yn ymgartrefu yn hapus yn ein plith

Cofiwn ar ein Rhestr Weddi am Mrs Menna Owen yng Nghartref yr Hen Ddeondy ac am Mr John Gwilliam yng Nghartref High Pastures Deganwy. Rydym hefyd yn cofio am Elin Price (mam Rhian) sydd heb fod yn dda. Bu ini yn ddiweddar gweddio dros Noa bach tra roedd yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hey a da nodi fod y triniaeth wedi bod yn llwyddiant a fod Noa bach adref ac yn gwella yn dda. Rydym wedi cofio ac yn cofio am bob un o'r bobl yma yn ein gweddiau personol a fel chynylleidfau o Sul I Sul yng Nghapel Waengoleugoed.

Gofal Dydd — Mae pawb wedi mwynhau prysurdeb y Nadolig a hefyd croesawu Tecwyn Ifan, Arfon Wyn a Rhian Price atom. Rydym wedi gwneud addurniadau a chardiau ar gyfer y Nadolig gyda cymorth annwyl Nancy. Ar y 10 fed o Ragfyr chawsom wahoddiad l gyngerdd Blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Dewi Sant y Rhyl. Roedd y cyngerdd yn wych a phawb wedi mwynhau y profiad a'r croeso tywysogaidd y chawsom l gyd! Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu y partneriaeth ymhellach gyda Ysgol Dewi Sant. Roedd pawb mor llawen o weld Mrs Alice Morris wedi gwella yn ddigon da l ddychwelyd yn ol atom. Rydym yn cofio yn annwyl am Mrs Ceinwen Jones a Mrs Eluned Lloyd sydd ddim yn dda adref, am Mrs Dorothy Jones sydd yng nghartref yr hen Ddeondy ac am Mrs Mary Owen sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd - mawr obeithiem y byddent oll yn gwella ac yn ol gyda ni cyn bo hir. Byddem yn cael cinio Nadolig yn y Capel ar y 17 o Ragfyr a saib bach ar Noswyl Nadolig a Noswyl y flwyddyn newydd gan eu bod ar dydd lau cyn ail gychwyn Ionawr 7fed.

Y Ffair Nadolig Un peth sydd wedi nodweddu sawl gweithgaredd yn y Capel yn 2015, a hynny ydi glaw a llawer iawn o law hefyd.! Gwawriodd bore Sadwrn 30 o Dachwedd yn oer ac yn wlyb ond ni lwyddodd hyn l gadw pobl draw o'r ffair. Chawsom fore prysur iawn gyda help parod, Mair Williams, Llinos Roberts, Nancy Brierley Glenys Goddard, Aledwen Jones, Ceri Peacock, Margaret Williams, Rosemary Williams, Erin Ifan, David Mawdsley, Glenys Morris ac Elen Jones ar y gwahanol stondinau. Daeth ein cefnogwyr o Sir Fon, Bala a Chaer ynghyd a'r ardal lleol. Diolch arebnnig l Richard Owen, Dafydd Lloyd Jones, Arwyn Roberts a Rhodri Jones am fod allan mewn tywydd mor ofnadwy l helpu gyda'r parcio a pawb yn nodi fod y 4 wedi gwneud popeth gyda'u gwen ac annwyldeb arferol. Gyda rhoddion mae cyfanswm y ffair bellach dros £3,000 ond gan fod cardiau Nadolig yn parhau l'w gwerthu ac ambell rodd arall ar y ffordd, byddem yn cyhoeddi y swm terfynol ar ol y Nadolig. Diolch eto l bawb sydd yn helpu ac l'n cefnogwyr ffyddlon am eu haelioni arferol.

Organ Newydd —Penderfyniad anodd oedd y dylem meddwl am gael offeryn newydd yn y Capel gan i bawb fod mor hoff o'r harmonium sydd wedi bod yn y Capel ers bell dros 70 mlynedd. Y diweddar Goronwy Jones aeth ati i brynnu yr offeryn i'r Capel—gorchwil charedig dros ben yn arbennig i rywun oedd dim ond yn cael cyflog bach. Aeth David, Meinir a Mari (a gyda chyingor Margaret ac lola) i siop Mr Krueger yn Ninbych a dewis offeryn fydd yn ddefnyddiol i holl grwpiau sydd yn ymwneud a'r Capel. Defnyddwyd yr organ am y tro cyntaf ar Ragfyr 6ed ar gyfer oedfa canwyll i Gofio a phawb yn hoffi y swm mawreddog sydd yn dod ohonno yn nwylo medrus David. Cyd-ddigwyddiad hapus y noson hefyd oedd ar Ragfyr 6ed 1892, y chafodd y Capel presennol ei agor —123 o flynyddoedd yn gynt ! Mae y harmonium wedi eu symud i ochr pella y Capel a dyna ble fydd yn aros .

Llongyfarchiadau - Llongyfarchiadau mawr i blant bach y Capel sydd wedi bod yn brysur yn cymeryd rhan mewn cyngherddau a sioeau Nadolig a phob un yn chwarae eu rhan mor dda. Da iawn Elen, Morgan a Cadel Roberts, Elen a Gemma Burgoyne, Elin Jones, Emilia Lloyd-Jameson, Willam ac Emily Palframan a Luke Lightbown. Edrychwn ymlaen at ein hoedfa Carolau ar gyfer Pobl Prysur ar Noswyl Nadolig pan fydd nifer o'n plant yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth

Waen Chapel is an open , welcoming Chapel and here for everyone . We offer support and help to all of any language or faith —please do let us know if you feel that the Chapel can help you in any way. We have a monthly English news letter on **our website** www.capelywaen.btck.co.uk .

Dyddiau i'w Nodi – Dyma rhestr dyddiadau i'w nodi ac oedfaon gyda pregethwyr gwadd 2015

Rhagfyr 6ed Canwyll i Gofio **6 yh**

Rhagfyr 20 oedfa byr a parti i'r plant 3.30 – 5yp

Rhagfyr 24 carolau ar Gyfer pobl Prysur - oedfa deulu 30 minud o ddarlleniadau a charolau dan olau canwyll **4yp**

2016

Ionawr 6ed – Oedfa ystwyll **7yh**

Ionawr 31 Parch Williams Davies **2 yp**

Chwefror 3 Grwp C3 **4.30—6.30**

Chwefror 6 Parch John Roberts BBC **10.30 yb**

Pob Dydd lau—Gofal Dydd 10.30yb—3.30yp

Noson Lansio Llyfr “Stori Capel Waengoleugoed” Er gwaethaf strom o wynt a glaw, daeth cynylleidfada iawn l’r noson lansio. Ar gais sawl un aethpwyd ati l grynhoi hanes yr achos ar gyfer dathlu ein dau-ganmlwyddiant . Nid hawdd oedd y dasg gan nad oedd llawer o ddogfennau yn ein meddiant ond trwy porri yn y llyfrau ac ar y we, cysylltu a hen deuluoedd yr ardal a gofyn l garedigion yr achos, rydym wedi llwyddo l gael llyfr y gallem fod yn falch ohonno a llyfr mae llawer wedi mwynhau eu ddarllen. Ar y noson, llawenydd mawr oedd croesawu Y Parchedig D Ben Rees sydd wedi bod yn gymaint o gymorth wrth ini fynd ati l gyhoeddi y llyfr; ein gweinidog olaf ond un y Parchedig Emyr Lyn Evans a oedd wedi teithio yr holl ffordd o Abergwili ar gyfer y noson ; ynghyd a ddau sydd yn gefn ac yn gyfeillion ini sef y Parchedig Tecwyn Ifan ac Angharad Tomos. Dan gadeiryddiaeth doeth a trylwyr David Mawdsley chawsom noson l gofio a phawb wedi mwynhau yr awyrgylch cynnes. Diolch l Richard, Gareth a Derrick am eu help gyda’r parcio ac l bawb a helpodd gyda’r baned ar ddiwedd y noson. Mae y llyfr ar werth yn y siopau Chymraeg ac ar wefan y Cyngor Llyfrau ond mae brinder o gopiau. Mae ganddom gyflenwad bach o lyfrau rydym yn eu gwerthu y trwy law y Capel— mae holl arian y gwerthiant er budd Gofal Dydd a Grwp Cancr C3.

Cau Capel Tremeirchion - Mae yn drist nodi fod capel arall mewn pentref cyfagos wedi cau. Rydym yn diolch l swyddogion Capel Tremeirchion am y rhodd o £100 er budd Gofal Dydd. Derbyniwyd y swm yma, sef y casgliad yn yr oedfa olaf l’w gynnal yn y Capel ym mis Hydref , a rydym yn dymuno pob bendith l’r aelodau sydd yn weddill wrth iddynt ymgartrefu yng Nghapel Trefnant.



